# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# RHAGLEN CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 11 o Chwefror, 2025** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Y Ganolfan, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Gethin Jones** |

*NB :oherwydd amgylchiadau anarferol, cofnodion o recordiad: transgript Geraint Jones, Trefor.*

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Gethin Jones **(GJ)** bawb i'r cyfarfod<br><br>**YN BRESENNOL:**<br>Gethin Jones **(GJ)**; Lois Fychan **(LF)**; Emlyn Williams **(EW)**; Osian Hugh Williams **(OHW)**; Olwen Roberts (**OR**); Y Cyng. Jina Gwyrfai **(JG)**; |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Gillian W Thomas, Clerc. Eglurwyd bod y Clerc adref o'r ysbyty ond nid yw'n ddigon da i fynychu'r cyfarfod heno, felly bydd y cyfarfod, gyda chydsyniad y sawl sy'n bresennol, yn cael ei recordio. |
| **3.** | **CYFLWYNO A MABWYSIADU COFNODION CYFARFOD RHAGFYR 2024** |
| | Ni chynhaliwyd cyfarfod ym mis Ionawr gan fod y Clerc wedi ei hanfon i'r ysbyty. Dymunwyd gwellhad iddi a chyflwynwyd cofnodion mis Rhagfyr a'u derbyn. |
| **4.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Datganiad gan Gethin Jones ar gyfer eitem Tendro Gwaith ein Gwefan (sef ei fod yn adnabod ac yn cyd-weithio ag un o'r ymgeiswyr). Nid yw'n elwa'n bersonol, felly dim angen iddo adael yr ystafell.<br>Pwysleisiwyd yr angen i ddatgan diddordeb os oes unrhyw gysylltiad gyda materion y Cyngor – hyn er mwyn bod yn dryloyw. |
| **5.** | **MATERION YN CODI** |
| | **a)** **DRAIN MYNWENT LLITHFAEN**<br>Trafodwyd y mater gyda thrysorydd y fynwent. Adroddodd ei bod wedi trefnu i'r drain gael ei dorri dair wythnos yn ôl ond oherwydd y tywydd garw bu'n rhaid canslo. Gobeithid ail drefnu yn fuan. Gwaith i'w gwblhau.<br><br>**b)** **BIN BAW CŴN DIFFYGIOL - CAIS I LEOLI AR BEN NANT**<br>Mae Bin Baw Cŵn wedi ei osod ar Ben Nant. Bydd angen trefnu i'w wagio (ar gost CCPistyll)<br><br>c) **CWYNION PELLACH WEDI EU DERBYN AM 13 CAR WEDI EU PARCIO O GWMPAS UN TŶ YN AWELFRYN.**<br>Mae'r mater yma wedi bod ar raglen y Cyngor hwn yn rheolaidd. Yn dilyn cwyn, mae swyddog wedi ymweld, a'r safle wed ei chlirio - ond bydd y broblem yn dychwelyd ymhen amser. Penderfynwyd na ddylai'r eitem hon barhau i fod ar raglen waith y Cyngor hwn. O hyn ymlaen cyfeirir unrhyw gwynion at yr Heddlu a/neu ADRA.<br><br>**d)** **CAR YN DAL I FOD WEDI EI BARCIO AR Y PALMANT O FLAEN TAFARN Y FIC - Y CLERC I OFYN I'R HEDDLU GAEL GAIR Â'R SAWL SY'N GYFRIFOL.**<br>Er bod y car yn parhau i achosi trafferthion nid oedd y Clerc wedi cael diweddariad, hyd y gwyddys.<br>Penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd. |

| | |
|---|---|
| | **e)** **GORDYFIANT AR BONT BRYNCELYN ISAF**<br>Mae'r gwaith hwn eisoes wedi ei gwblhau.<br><br>**f)** **GWTER YNG NGHANOL Y LÔN DROS Y FFORDD I ALPHA - ANGEN EI HAIL LEOLI FEL Y GALL DŴR LIFO IDDI.**<br>Y gwaith wedi ei ychwanegu at restr gwaith Priffyrdd Dwyfor; dim dyddiad yn hysbys eto.<br><br>**g)** **FFORDD O'R WERN I BISTYLL**<br>Nodwyd eto fod angen barbio a chlirio ar hyd ochrau'r ffordd hon. Adroddwyd yn y cyfarfod diwethaf fod polisi safonol ynglŷn â defnyddio chwynladdwr ar wefan y Cyngor, ond nid yw'r Clerc wedi cael cyfle i anfon copi o'r polisi at yr aelodau. Cwynwyd hefyd am ddŵr yn gorlifo o'r caeau i'r lôn ar y darn yma o'r B4417. Penderfynwyd mai cyfrifoldeb y ffarmwr yn hytrach na'r Cyngor Sir yw hynny.<br><br>**h)** **YMGYRCH *GAN BWYLL* – PISTYLL**<br><br>Adroddodd y clerc ym mis Rhagfyr bod y Tîm Ymgysylltu wedi bod yma ar 11 Tachwedd, rhwng 13:00 a 14:15. Nid oedd addewid i ail-ymweld â'r safle. |
| **6.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | Bu trafodaeth ar y ceisiadau isod :<br><br>1. Tir Bach, Pistyll C24/1121/43/YA : sied amaethyddol<br>2. Gwynus Ucha C25/0064/43/TR : ceblau trydan<br>3. London House, Llithfaen C25/0053/43/DT : gosod paneli haul<br>4. Tir Bach, Pistyll C25/0089/43/YA : sied amaethyddol (addasiad i'r cais blaenorol)<br><br>Penderfynwyd :<br><br>1. Wedi pasio'n amodol yn barod.<br>2. Dim gwrthwynebiad<br>3. Dim sylw<br>**4.** Er yn croesawu'r newid lleoliad a'r tirlunio, roedd yn dal rhai amheuon am faint y sied a'i phwrpas. Dim gwrthwynebiad ond cwestiynu maint a bwriad adeilad o'r fath. |
| **7.** | **PRAESEPT** |
| | Cynhaliwyd cyfarfod arbennig trwy gyfrwng Zoom i bennu Praesept. Yn bresennol roedd y Clerc ( yn yr Ysbyty), y Cadeirydd a'r Cynghorydd Osian Williams. Penderfynwyd i gadw'r Praesept yr un fath â'r llynedd, (£12,000). |
| **9.** | **LÔN GORS LWYD I FRYN FFYNNON** |
| | Derbyniodd y Cadeirydd bapurau a diweddariad gan Dafydd Rhun ein Cyfreithiwr yn ymwneud â'r mater hwn o fewn awr i'r cyfarfod heno.<br>Penderfynwyd gohirio trafod y *Deed of Easement* terfynol tan y cyfarfod nesaf, gan fod angen ei darllen yn fanwl cyn ei llofnodi.<br>Roedd Jina Gwyrfai wedi derbyn cais gan Einir Young i ddarganfod perchennog y triongl o dir sydd yn y cyffiniau - cyn i'r mater ddod i ben. Roedd Ms Young yn parhau yn bryderus am gyfrifoldeb cynnal y lôn. |
| **8.** | **LLECYNNAU YM MHENTREF LLITHFAEN SYDD ANGEN EU HARDDU** |
| | Gadael ar y bwrdd. |

| | |
|---|---|
| **9.** | **Y GANOLFAN, LLITHFAEN** |
| | Gadael ar y bwrdd. |
| **10.** | **MATERION LLEOL** |
| | 1. **Carreg fawr ar ochr y lôn.** Mater brys yw delio â hon, oherwydd y perygl y bydd y wal gyfan yn cwympo i'r lôn.<br>2. **Tyllau yn y ffyrdd.** Mynegwyd pryder am nifer o dyllau : ger Abergafran, o flaen yr Exchange, giât Hafod, ac ym Mhistyll – 'ym mhobman' !<br>3. **Arwydd Lôn Groes.** Gethin Jones wedi anfon at Meirion Macintyre Huws i nodi lleoliad yr arwydd – pan ddaw. |
| **11.** | **TENDRO i GREU GWEFAN NEWYDD I'R CYNGOR** |
| | Derbyniwyd 3 chais gan y Clerc yn y cyfnod cyn diwedd y flwyddyn. Ystyriwyd y ceisiadau heno: |

| Cwmni | Pris dylunio gwefan | Pris cynnal y wefan (blynyddol) | Arall |
|---|---|---|---|
| Cymru1.net | 3006 | 480 | Heb TAW |
| Mike Jones | 1478 | 398 | |
| Delwedd | 1677 | 593 | |

Esboniwyd bod yr un 'spec' wedi ei roi i bob un.
Penderfynwyd yn unfrydol i dderbyn y pris isaf, sef un Mike Jones.
Gethin Jones i gysylltu â'r cwmni a gofyn iddo ymgymryd â'r gwaith mor fuan â phosib.

| | |
|---|---|
| **12.** | **CYLLID Diweddaraf : Mis Rhagfyr 2024** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| + | **CYFRIF CYFREDOL MAWRTH 2024** | | **£ 17,184.69** |
| + | **CYFRIF CADW MAWRTH 2024** | | **£ 2,717.05** |
| - | **LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | | **£ 3,936.75** |
| + | **GWARGED 2024/ 2025** | | **£ 4,027.46** |
| = | **CRONFA'R CYNGOR** | = | **£ 19,992.45** |

**<u>I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC</u>**

**<u>CYFRIF CYFREDOL - 01 o Dachwedd I 30 o Dachwedd 2024</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£ 18,467.87** |
| Derbyniadau | + | £ - |
| Gwariant | - | £ 921.40 |
| Balans Cau | = | **£ 17,546.47** |

**<u>CYFRIF CADW - 07 Hydref I 6ed o Dachwedd 2024</u>** -

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£ 2,744.41** |
| Derbyniadau | + | £ - |
| Gwariant | - | £ - |
| Balans Cau | = | **£ 2,744.41** |
| | = | **£ 20,290.88** |

**<u>LLAI TALIADAU HEB EU CYFLWYNO YN Y BANC</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | | | |
| | | | |
| | | = | **£ -** |

*Darparwyd gan: Clerc y Cyngor, 1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7HP*
*Ffon: 07979 438 307 E.Bost: ccpistyll@outlook.com Gwefan: https://cyngorcymunedpistyll.weebly.com*

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **LLAI TALIADAU I'W CYMERADWYO** | | |
| - | Cyflog Clerc | **201331** | **274.60** |
| - | Treuliau | **"** | **23.74** |
| - | | | |
| | | **=** | **£ 298.34** |
| | **SYDD YN CYTUNO GYDA CHRONFA'R CYNGOR** | **=** | **£ 19,992.54** |
| - | **LLAI BALANS CRONFA DIFFIBLWR (LL)** | **-** | **-£ 15.70** |
| - | **LLAI BALANS CRONFA DIFFIBLWR (P)** | | **£ 242.00** |
| | | | |
| **=** | **CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON** | **=** | **£ 19,766.24** |

a)

| | |
|---|---|
| **13.** | **UNRHYW FATER ARALL** |
| | **Amser ein cyfarfodydd** : trafodwyd newid yr amser, ond penderfynwyd aros gyda 7pm<br>**Canopi Siop y Groes :** cais i symud y canopi<br>**Taliadau Sieciau :** yn ystod salwch diweddar y Clerc cododd anhawster talu biliau. Penderfynwyd i'r Cadeirydd fynd i Rosgadfan a chymryd gofal o lyfr siec y Cyngor, gan fod llofnodwyr y sieciau yn byw ym Mhistyll a Llithfaen. |
| **14.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | 11 o Fawrth, 2025, am saith o'r gloch yng Nghanolfan Llithfaen. |

*Darparwyd gan: Clerc y Cyngor, 1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7HP*
*Ffon: 07979 438 307 E.Bost: ccpistyll@outlook.com Gwefan: https://cyngorcymunedpistyll.weebly.com*